PARRY, WILLIAM (bu farw 1585), cynllwynwr Catholig

Enw: William Parry
Dyddiad marw: 1585
Rhiant: Henry ap David
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cynllwynwr Catholig
Maes gweithgaredd: Gwrthryfelwyr; Crefydd; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
Awdur: Glanmor Williams

Mab i Henry ap David, Llaneurgain, Sir y Fflint, oedd Parry, mwy na thebyg. I ddianc rhag ei ofynwyr gwasnaethodd Burghley fel ysbïwr ar y Pabyddion, a chroesodd i'r Cyfandir yn 1571, 1579, a 1582. Daeth ef ei hun i gydymdeimlo â Chatholigiaeth, ac argyhoeddwyd ef fod yn rhaid lladd Elisabeth. Datguddiodd un o'i gyd-gynllwynwyr fod Parry yn ymhel â chynllwyn yn ei herbyn wedi iddi gondemnio mesur yn erbyn y Jesiwitiaid, yn Nh 'r Cyffredin yn 1584. Dyfarnwyd ef yn euog, ac fe'i dienyddiwyd, 2 Mawrth 1585. Amheuir a oedd ef yn euog, ac yn fwy fyth a oedd yn ddigon penderfynol a galluog i gario allan ei gynllwyn.

Awdur

Syr Glanmor Williams

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

P. Hughes, *Rome and the Counter-Reformation in England* (Llundain 1942), 222-6

D. Mathew, *The Celtic Peoples and Renaissance Europe. A study of the Celtic and Spanish influences on Elizabethan history* (1933), 237-8

D. Williams, *A History of Modern Wales* (Llundain 1965), 71

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: William Parry

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 50656359

Wikidata: Q944974

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu